**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Russell George AC
Cadeirydd – Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

20 Tachwedd 2019

Annwyl Russell

**Costau ffordd liniaru'r M4**

Fel y gwyddoch, fe wnaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus graffu ar Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf ynghylch costau prosiect ffordd liniaru'r M4 hyd yma. Mae'r Pwyllgor wedi cwblhau ei waith ar y mater hwn am y tro ac rwy'n atodi copïau o ohebiaeth fanwl rhyngof i ac Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol yn Llywodraeth Cymru. Rwy'n gobeithio y bydd hyn o fudd i waith eich Pwyllgor yn y dyfodol ynghylch y mater hwn, ar ôl cyhoeddi Adolygiad yr Arglwydd Burns.

Mae Vikki Howells AC ac Oscar Asghar AC yn Aelodau o'r ddau Bwyllgor ac maent wedi cytuno i roi'r diweddaraf i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am waith eich Pwyllgor chi.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

Andrew Slade
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Grŵp Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Llywodraeth Cymru

29 Hydref 2019

**Cynllun tocynnau bws rhatach i bobl ifanc Llywodraeth Cymru – FyNgherdynTeithio**

Annwyl Andrew,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 1 Hydref 2019, a oedd yn egluro nifer o faterion o ran amcangyfrif o ddata siwrneiau ar gyfer 2018 – 19.

Fodd bynnag, wedi'i ddarllen ar y cyd â thystiolaeth flaenorol a ddarparwyd i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, mae'r ymateb yn awgrymu bod nifer y bobl ifanc 19-21 mlwydd oed sy'n dal pasiau wedi lleihau yn hytrach na chynyddu rhwng mis Mai a mis Awst 2019, gyda dim ond 551 o basiau gweithredol mewn cylchrediad ar gyfer y garfan o 19 i 21 mlwydd oed ar ddechrau mis Awst o'i gymharu â'r ffigur o 834 a nodwyd yn flaenorol ar gyfer canol mis Mai.

Ni ddarperir esboniad am y gwahaniaeth hwn yn eich llythyr, ond mae'r ffigurau'n codi cwestiynau parhaus ynghylch effeithiolrwydd ymdrechion marchnata, a dyheadau, Llywodraeth Cymru ar gyfer y cynllun. Nodwn, fodd bynnag, y bu rhywfaint o dwf pellach yn nifer y bobl ifanc 16 i 18 oed sy'n dal pasiau.

Roedd y Pwyllgor yn parhau i bryderu am y cynnydd a wneir o ran cynyddu nifer y bobl ifanc 19 – 21 oed sy'n manteisio ar y cerdyn, a hoffai gael eglurhad pellach ar y ffigurau, ynghyd ag unrhyw wybodaeth am ddull Llywodraethau Cymru o farchnata'r cynllun.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau fel y gellir ystyried y materion hyn ochr yn ochr â chyllidebu ar gyfer y cynllun, fel rhan o waith craffu'r Pwyllgor hwnnw ar gyllideb Llywodraeth Cymru.

Yn gywir,


**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Andrew Slade
Cyfarwyddwr Cyffredinol – Grŵp yr Economi, Sgiliau a
Chyfoeth Naturiol
Llywodraeth Cymru

25 Gorffennaf 2019

**Costau Prosiect yr M4**

Annwyl Andrew,

Diolch ichi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 15 Gorffennaf 2019. Wele isod nifer o faterion a gododd o'r cyfarfod y mae'r Pwyllgor yn dymuno cael rhagor o wybodaeth amdanynt.

**Defnyddio data a chyflwyniad**

Mae problemau gyda chysondeb a chymaroldeb y data ariannol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru hyd yma o ran cost prosiect yr M4.

Fe wnaethom holi yn ystod y sesiwn dystiolaeth pam y dywedodd y Prif Weinidog ar y pryd, Carwyn Jones AC, yn 2015 na fyddai prosiect yr M4 yn costio'n agos at £1 biliwn. Roedd hyn er gwaethaf y ffaith bod adroddiad cyfnod 1 WelTAG ym mis Mehefin 2013 ar gyfer y prosiect yn amcangyfrif costau o £936 miliwn, a'r ffaith bod y costau a ddyfynnir bellach oddeutu £1.57 biliwn.

Esboniodd eich swyddogion y gallai'r ffigurau a ddyfynnwyd gan y Prif Weinidog ar y pryd gyfeirio at y costau adeiladu yn unig. Ac eto, byddai wedi bod yn glir nad yw'r rhain yn adlewyrchu costau llawn datblygu, darparu a chomisiynu'r cynllun ac felly maent yn gamarweiniol.

Yn yr un modd, ymddengys bod anghysondebau o ran cymhwyso TAW yn y costau addasedig a gyflwynir yn Natganiad Ysgrifenedig y Gweinidog Economi a Thrafnidiaeth ar 5 Mehefin 2019 ar y camau nesaf ar gyfer yr M4 yn dilyn

penderfyniad y Prif Weinidog i beidio â bwrw ymlaen â'r cynllun. Dywedodd y Gweinidog (ychwanegwyd pwyslais):

"Ni fydd yr £114m a wariwyd ers 2013 i ddatblygu cynigion ar gyfer Prosiect £1.32 biliwn yr M4 (yn ôl prisiau 2015, ***sy'n gyfwerth â*** £1.57 biliwn yn ôl prisiau 2019) yn wariant ofer gan y bydd y Comisiwn yn gwneud defnydd da ohono trwy wneud yn siŵr fod ganddo'r wybodaeth orau am fodelau teithio, arolygon amgylcheddol a'r holl ffactorau eraill sydd ar waith yn y rhanbarth".

Fodd bynnag, yn ystod y cyfarfod ar 15 Gorffennaf, dywedodd y Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyflawni Seilwaith:

"So, the £1.32billion is absolutely correct, that was Q4 2015 prices.  That didn't include VAT.  The £1.577 billion did include non-recoverable VAT, so that was adjusted to reflect 2019 prices".

Gwnaeth hefyd yn glir bod y ffigur ar gyfer TAW na ellir ei adennill rhwng 11 a 13 y cant.

Felly, nid yw'r amcangyfrif ym mhrisiau 2015 yn cyfateb i'r ffigur wedi'i addasu ym mhrisiau 2019 fel yr awgrymodd y Gweinidog.  Yn hytrach, mae'r cyflwyniad hwn o'r amcangyfrifon cost yn awgrymu bod costau wedi cynyddu'n sylweddol fwy - 11 i 13 y cant yn fwy - nag sydd ganddynt mewn gwirionedd. Gwnaed y gwall hwn ar y pwynt pan wrthododd Llywodraeth Cymru y cynllun yn rhannol ar sail fforddiadwyedd.

Rydym yn pryderu bod yn rhaid i'r cyhoedd ddeall y wybodaeth am faterion sy'n ymwneud â thoriadau costau Llywodraeth Cymru yn glir, ac yn bwysicach fyth y dylai'r wybodaeth gael ei chyflwyno'n gyson, ar gyfer prosiect penodol ar adegau gwahanol mewn amser ac ar draws prosiectau.

Felly, gofynnwn i chi ddarparu cadarnhad o bob amcangyfrif cost ar gyfer y prosiect a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ers 2013, gan gynnwys dyddiad yr amcangyfrif, cadarnhad a yw'n cynnwys neu'n eithrio TAW ac eglurhad o'r ffactorau penodol sy'n arwain at unrhyw newid rhwng amcangyfrifon.  Gofynnwn i chi ddarparu pob un o'r rhain yn y flwyddyn bris y cyfrifwyd yr amcangyfrif yn wreiddiol, a'u haddasu i brisiau 2019 i ganiatáu cymhariaeth glir.

## Costau datblygu net

Rydym hefyd yn ymwybodol na fydd y ffigur o £114 miliwn a wariwyd ar ddatblygu prosiect yr M4 ers 2013 yn adlewyrchu cost net derfynol y cynllun. Rydym yn cydnabod y gall fod incwm o werthu eiddo a brynir yn orfodol, a hefyd costau dirwyn i ben.

Gan hynny, rydym yn gofyn am fanylion cyfanswm cost net datblygiad yr M4, sy'n hysbys hyd yn hyn, gan restru cyfanswm costau datblygu ynghyd â chostau dirwyn i ben ac unrhyw gostau cysylltiedig eraill, unrhyw elw o werthu eiddo a gafwyd, incwm arall neu gostau a adferwyd.

## Caffael a gwaredu tir

Gwnaethom drafod y defnydd a wneir yn y dyfodol o'r eiddo a'r tir a gaffaelwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o brosiect datblygu'r M4 a nodi y bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried yn gyntaf a oes angen unrhyw un o'r eiddo neu'r tir hyn o hyd yng nghyd-destun unrhyw gynigion gan y Comisiwn. Felly, gofynnwn ichi rannu â ni amserlen ar gyfer gwaredu eiddo a thir ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru yn dilyn canlyniad gwaith y Comisiwn.

Rydym hefyd wedi nodi rhai anghysondebau amlwg yn y data ar yr M4 - caffaeliadau a gwarediadau tir ac eiddo a ddarparwyd ym mhapur tystiolaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ein cyfarfod ar 15 Gorffennaf 2019 a'r wybodaeth a roddwyd i'r Pwyllgor mewn llythyrau gan Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Mawrth 2015 a mis Ebrill 2015. Rydym yn deall bod y rhain yn seiliedig ar wybodaeth a gafodd tîm archwilio ariannol Swyddfa Archwilio Cymru gan Lywodraeth Cymru. Byddem yn croesawu eglurhad am yr anghysondebau hyn yn rhai o'r dyddiadau a'r symiau ariannol a briodolir i wahaniaethau/caffaeliadau gwahanol. Byddem hefyd yn croesawu eglurhad ynghylch cyflwyno'r tabl ar gaffaeliadau/gwarediadau ac, yn benodol, llinellau 31-35. Awgryma'r fformatio fod yr eitemau hyn mewn adran am eiddo sydd wedi eu caffael a'u gwaredu, ond ni ddangosir dyddiadau gwaredu/prisiau.

## Amcangyfrifon cost ar gyfer awgrymiadau amgen 20

O ran dewisiadau amgen posibl yn lle ffordd liniaru'r M4 mae gennym ddiddordeb yng nghostau twnelu posibl o dan lefelau Gwent (awgrym amgen 20, a

amcangyfrifir gan Lywodraeth Cymru i gostio tua £10 biliwn). Gofynnwn am ddadansoddiad o'r costau arfaethedig ar gyfer yr opsiwn hwn, ynghyd â manylion am sut y cafodd y costau hyn eu meincnodi a manylion pa gyfran o gyfanswm y gost amcangyfrifedig ar gyfer y dewis arall hwn sy'n ymwneud â gwaith twnelu gwirioneddol, yn hytrach na datblygu cynlluniau, gwaith arwyneb ac ati.

Yn olaf, roeddech yn garedig i gynnig dosbarthu copi o Adroddiad Dewisiadau Amgen a awgrymwyd gan Wrthwynebwyr ar gyfer coridor yr M4 o amgylch Casnewydd (Mawrth 2017) Mae'r adroddiad eisoes ar gael i'r cyhoedd ac mae wedi'i ddosbarthu i Aelodau'r Pwyllgor ond hoffwn ddiolch i chi am eich cynnig.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

Nick Ramsay AC
Cadeirydd